CYNGOR TREF PEN-Y-BONT AR OGWR

CYLCHLYTHYR

Rhifyn 5 - Gorffennaf 2022

Annwyl Drigolion,

Croeso cynnes i 5ed rhifyn Cylchlythyr Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Cynhaliwyd etholiadau lleol ym mis Mai ac rydym ni'n falch o gyflwyno eich cynghorwyr newydd ar gyfer tymor 2022-27.

Rydym ni hefyd wedi bod yn paratoi ar gyfer ailagor Tŷ Carnegie ac yn edrych ymlaen yn fawr at eich croesawu'n ôl i ddosbarthiadau rheolaidd yn ogystal â chyflwyno rhai gweithgareddau newydd.

Maer y Dref a Dirprwy Faer Newydd

Yng Nghyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr ddydd Llun 16 Mai, penodwyd y Cynghorydd Tim Wood yn Faer Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2022-23. Penododd y Cynghorydd Wood Claire Ayres fel ei gonsort.

Penodwyd y Cynghorydd Freya Bletsoe yn Ddirprwy Faer Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr a phenododd y Cynghorydd Steven Bletsoe fel ei chonsort.

Fe wnaeth y Cynghorydd Wood llongyfarch y Cynghorwyr ar eu hetholiad diweddar, diolchodd iddynt am ei benodi'n Faer Tref Pen-y-bont ar Ogwr a dywedodd ei fod yn gobeithio y gall pob Cynghorydd gydweithio iddo gael cyfnod cynhyrchiol yn y swydd.

Y Maer, y Cynghorydd Tim Wood, a'i gonsort Claire Ayres

Y Maer a'r Dirprwy Faer y Cynghorydd Freya Bletsoe

Eich Cynghorwyr Tref

Yn dilyn yr etholiad Ddydd Iau 5 Mai fe etholwyd y Cynghorwyr canlynol i gynrychioli wardiau Morfa, Yr Hen Gastell a'r Castell Newydd.

Gweler gwefan Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr am fanylion cyswllt yr holl gynghorwyr.
www.bridgendtowncouncil.gov.uk

Rhes Gefn L-R: *Y Cynghorwyr N. Deere, F. Sullivan, A. Lloyd, C. Webster, T. Wood, F. Bletsoe, S. Bletsoe, B. Johnson*
Rhes Flaen L-R: *Y Cynghorwyr C. Harding, A. Wathan, M. Blundell Humphries, I. Williams, D. Unwin, S. Easterbrook, D. Evans.*
Noder *- Mynychodd Cynghorwyr A. Felton, I. Spiller ac A. Morelli o bell.*

Morfa Ward:
Steven Bletsoe (Anibynnol)
Nathan Deere (Annibynnol)
Dominic Evans (Llafur)
Chris Harding (Llafur)
Francesca Sullivan (Annibynnol)
Swydd Wag

Oldcastle Ward:
Freya Bletsoe (Annibynnol)
Michelle Blundell-Humphreys (Annibynnol)
Alison Felton (Llafur)
Ann Lloyd (Annibynnol)
Angela Morelli (Llafur)
Ian Williams (Annibynnol)

Newcastle Ward:
Steven Easterbrook (Annibynnol)
Barry Johnston (Annibynnol)
Ian Spiller (Annibynnol)
David Unwin (Annibynnol)
Alan Wathan (Annibynnol)
Clair Webster (Annibynnol)
Tim Wood (Annibynnol)

COFIO 'HMS URGE'

I nodi 80 mlynedd ers suddo 'HMS Urge,' mynychodd Maer a Maeres Tref Pen-y-bont ar Ogwr ddigwyddiadau dinesig ym Malta ym mis Ebrill 2022 i gynrychioli trigolion Pen-y-bont ar Ogwr.

Roedd y rhain yn cynnwys gwasanaeth yn Eglwys Gadeiriol Sant Paul, darlith ar ddarganfod yr 'HMS Urge' ym Mhrifysgol Malta, derbyniad a roddwyd gan Uchel Gomisiynydd Prydain i Malta, ymweliad â safle llongddrylliad HMS Urge i osod torch a dadorchuddio Cofeb HMS Urge yn Fort St Elmo.

Delwedd diolch i Uchel Gomisiwn Prydain ym Malta

DADORCHUDDIO PLAC TUDURAIDD SIARTER Y FARCHNAD FRENHINOL

Ddydd Sadwrn 19 Chwefror 2022 dadorchuddiodd Arglwydd Raglaw Ei Mawrhydi, Peter Vaughan, blac glas i ddathlu 500 mlynedd o roi Siarter Marchnad Frenhinol i Dref Pen-y-bont ar Ogwr gan y Brenin Henri VIII yn 1516. Mae Plac y Tuduriaid wedi'i leoli yng Nghanolfan Siopa'r Rhiw, ar wal allanol Marchnad Dan Do Pen-y-bont ar Ogwr.

Cyflwynodd Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr y Cynllun Plac Glas i gydnabod y cyfraniadau sylweddol mae pobl nodedig a anwyd yn wardiau Morfa, Yr Hen Gastell a'r Castell Newydd, neu sydd â chysylltiadau agos â nhw, wedi eu gwneud i'r ardal. Comisiynwyd Plac y Tuduriaid fel rhan o'r cynllun hwn a bydd yn rhan o Lwybr Plac Glas ledled y dref.

Ar ôl y dadorchuddio, fe wnaeth dirprwyaeth o gynghorwyr hebrwng yr Arglwydd Raglaw ar daith o amgylch Marchnad Dan Do Pen-y-bont ar Ogwr, ac yna fe gafwyd te a phice ar y maen ffres yn y lle bwyta.

Diolchodd y Maer i bawb a oedd wedi cynorthwyo gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Ddinesig, y Gymdeithas Hanes a'r hanesydd lleol Louvain Rees am eu harweiniad gwerthfawr, a hefyd Rachel Bell, Rheolwr Canolfan Rhiw am drefnu i'r plac gael ei osod.

TYRAU BLODAU CANOL Y DREF

Yn gynnar ar y 23 Mai, cyrhaeddodd 20 Tŵr o Flodau i addurno Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer yr haf. Dywedodd 50% o'r trigolion a gwblhaodd ein harolwg yn 2021 yr hoffent weld mwy o arddangosfeydd blodau yng nghanol y dref a dywedodd 41.5% yr hoffent gadw'r un faint o arddangosfeydd!

GEFEILLDREFI

Ym mis Mai, roedd Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr a Chymdeithas Gefeillio Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn falch iawn o groesawu dirprwyaeth o'n gefeilldref yn Ffrainc, Villenave d'Ornon.

Roedd y daith, a drefnwyd gan Gymdeithas Gefeillio Tref Pen-y-bont ar Ogwr, yn cynnwys cyngerdd o Gôr Tabernacl Pen-y-bont ar Ogwr a Chorale Du Lac i godi arian ar gyfer Apêl Wcráin. Fore Gwener cynhaliwyd cyfarfod yn Siambr Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr i drafod cryfhau'r cysylltiadau rhwng y trefi gydag ymweliad cyfnewid i bobl ifanc ac efallai taith rygbi ieuenctid. Cynhaliwyd hefyd ddigwyddiad dinesig, a oedd wedi'i aildrefnu oherwydd y pandemig, i ddathlu 25 mlynedd ers y berthynas gefeillio yn y dref.

Cyflwynodd Dirprwy Faer Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, y Cynghorydd Freya Bletsoe i Faer Villenave D'Ornon, Patrick Pujol, Blât Anthem Genedlaethol Cymru wedi'i brynu gan Lizzi Gifts yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr.

HWNT AC YMA YN Y WARDIAU

Mae ein Tîm Cyfleusterau yn parhau i wneud gwelliannau yn ein wardiau.

Cyn

Ar ôl

Cyn

Ar ôl

Mae'r gwaith diweddar a wnaed wedi cynnwys: glanhau ac ail-baentio biniau sbwriel a meinciau o amgylch ac yng Nghaeau Newbridge; ailbeintio'r Feinciau Coffa y tu allan i Swyddfa'r Post, glanhau paneli hysbysiadau a cherrig milltir; glanhau a chwynnu'r Gofeb Ryfel, y goleuadau a'r mannau cyhoeddus yn Nhref Pen-y-bont ar Ogwr a glanhau ac ailbeintio llochesi bws.

Cyn

Ar ôl

Cyn

Ar ôl

COFIO'R YNYSOEDD FALKLAND

Ddydd Mawrth 14 Mehefin, 40 mlynedd ers diwedd Rhyfel y Falklands, gosododd Maer Tref Pen-y-bont ar Ogwr, y Cynghorydd Tim Wood, dorch wrth y Gofeb Ryfel ar ran trigolion Pen-y-bont ar Ogwr, i gofio pawb a gollodd eu bywydau yn y gwrthdaro.

MAE TŶ CARNEGIE YN AWR AR AGOR

Mae'n bleser gennym ni i gyhoeddi bod Tŷ Carnegie yn awr ar agor i'r cyhoedd. I gael rhagor o wybodaeth am ein dosbarthiadau wythnosol ewch i'n tudalen Facebook: www.facebook.com/carnegiehouse

Os hoffech chi logi llawr gwaelod Tŷ Carnegie, anfonwch e-bost at carnegiehouse@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 815 757 a dewiswch Opsiwn 2.

DWEUD EICH DWEUD

Mae'r Cyngor Tref wir eisiau i'r cylchlythyr hwn fod o werth i chi, felly rhannwch eich adborth a'ch awgrymiadau i'n helpu ni i wella. Os oes gennych chi bwnc neu brosiect yn eich cymuned yr hoffech chi i'r Cyngor Tref gymryd rhan ynddo, cysylltwch â'n Rheolwr Ymgysylltu Cymunedol drwy e-bost: carnegiehouse@bridgend.gov.uk

WYDDOCH CHI?

Gall preswylwyr wylio cyfarfodydd Llawn y Cyngor Tref a Chyfarfodydd Pwyllgor wrth iddynt ddigwydd. Gall aelodau o'r cyhoedd hyd yn oed ofyn cwestiynau ym mhob cyfarfod o'r Cyngor Llawn. Mae'r holl ddolenni cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr ac ar ôl y cyfarfodydd mae'r holl gofnodion hefyd yn cael eu cyhoeddi.
www.bridgendtowncouncil.gov.uk/ committees-and-minutes.aspx

CYSYLLTWCH Â NI

Mae manylion y Cynghorydd Tref i'w gweld ar ein gwefan
www.bridgendtowncouncil.gov.uk/contact-us

STAFF Y CYNGOR

Rheolir materion y Cyngor Tref gan Glerc Tref penodedig a gefnogir gan Ddirprwy Glerc Tref neu Swyddog Cyllid Cyfrifol a thîm o reolwyr, gweinyddwyr a staff gwaith ymarferol rhan-amser.

Eich Clerc Tref yw Mrs Leanne Edwards

bridgend.tc@bridgend.gov.uk

Gallwch hefyd ysgrifennu atom yn:

Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr,
Tŷ Carnegie,
Stryd Wyndham,
Pen-y-bont ar Ogwr,
CF31 1EF

Gallwch chi hefyd gael y newyddion diweddaraf gan y Cyngor Tref a materion lleol ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol:

- Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr
- Canolfan Gelfyddydau Tŷ Carnegie
- Tŷ Carnegie
- Tŷ Carnegie